CPS

Safonau Ansawdd Craidd

Mawrth 2010

Rhagair

Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yw prif wasanaeth erlyn cyhoeddus Lloegr a Chymru. Yn Ionawr 2010, cyfunodd â'r Swyddfa Erlyniadau Cyllid a Thollau (RCPO). Pennaeth y gwasanaeth yw'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (DPP) sydd hefyd yn Gyfarwyddwr Erlyniadau Cyllid a Thollau. Mae'r DPP yn gweithredu ei swyddogaethau'n annibynnol, yn destun i oruchwyliaeth y Twrnai Cyffredinol sy'n atebol i'r Senedd am waith y gwasanaeth erlyn.

Yn y safonau hyn, defnyddir y term *erlynyddion* i ddisgrifio aelodau'r gwasanaeth erlyn sy'n cael eu dynodi fel Erlynyddion y Goron; erlynyddion sy'n aelodau o'r RCPO; Erlynyddion Cysylltiol sy'n cael eu dynodi yn unol ag adran 7A Deddf Erlyn Troseddau 1985 ac sy'n gweithredu eu pwerau yn unol â'r cyfarwyddiadau presennol a gyhoeddir gan y DPP; ac aelodau eraill o'r RCPO a ddynodir gan y DPP yn rhinwedd ei swydd fel y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyllid a Thollau o dan adran 39 o'r Ddeddf Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005. Defnyddiwn y term *eiriolwr* i ddisgrifio erlynyddion a bargyfreithwyr neu gyfreithwyr annibynnol sy'n cynnal achosion mewn llys ar ein rhan.

Cefnogir yr erlynyddion gan swyddogion paragyfreithiol sy'n gwneud llawer o'r gwaith angenrheidiol i weithredu eu penderfyniadau, a gan staff gweinyddol sy'n delio â thasgau fel olrhain cynnydd achosion, cydgysylltu ag asiantaethau eraill, cyfateb deunyddiau sy'n dod i mewn i ffeiliau achos a chopïo ac anfon dogfennau allan.

Yn y safonau hyn, defnyddir y termau *heddlu neu ymchwilwyr eraill* i ddisgrifio aelodau'r holl asiantaethau ymchwilio hynny, yn cynnwys yr Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol ac Asiantaeth Ffiniau'r DU, sy'n paratoi a chyflwyno achosion i'r gwasanaeth erlyn.

Mae'r heddlu ac ymchwilwyr eraill yn gyfrifol am gynnal ymholiadau i honiad y gallai trosedd fod wedi ei chyflawni. Mewn achosion mwy difrifol neu gymhleth, erlynyddion sy'n penderfynu p'un a ddylai person gael ei gyhuddo o drosedd ac, os felly, pa drosedd ddylai fod. Mewn

achosion eraill, gall yr heddlu gyhuddo neu wysio person a ddrwgdybir, ond erlynyddion sy'n gyfrifol am benderfynu p'un a ddylai achos barhau. Er bod y gwasanaeth erlyn yn gweithio'n agos â'r heddlu ac ymchwilwyr eraill, mae'n annibynnol ohonynt. Mae annibyniaeth erlynyddion o bwys cyfansoddiadol sylfaenol.

Rhaid i aelodau'r gwasanaeth erlyn fod yn deg, annibynnol a gwrthrychol. Ni chaiff unrhyw farn bersonol ynglŷn â tharddiad ethnig neu genedlaethol, rhywedd, anabledd, oed, crefydd neu gredo, barn wleidyddol, cyfeiriadedd rhywiol, na hunaniaeth rywedd person a ddrwgdybir, diffynnydd, dioddefwr nac unrhyw dyst ddylanwadu ar eu penderfyniadau neu weithredoedd. Rhaid iddynt hefyd gymryd ystyriaeth briodol o'r goblygiadau cyfreithiol sydd gan gyrff cyhoeddus i hyrwyddo cyfartaledd hil, anabledd a rhywedd wrth gymryd penderfyniadau erlyn.

Yn y safonau hyn, defnyddir y term person a ddrwgdybir i ddisgrifio person nad yw eto'n destun i achos troseddol ffurfiol; defnyddir y term diffynnydd i ddisgrifio person sydd wedi ei gyhuddo neu ei wysio; a defnyddir y term troseddwr i ddisgrifio person sydd wedi cyfaddef ei euogrwydd i swyddog o'r heddlu neu ymchwilydd neu erlynydd arall, neu a gafwyd yn euog mewn llys barn.

Y llyfryn Safonau Ansawdd Craidd yw un o ddwy ddogfen allweddol a gyhoeddwyd ac sydd ar gael i'r cyhoedd, sy'n egluro pwrpas a gwaith y gwasanaeth erlyn. Yr ail yw'r Cod Erlynyddion y Goron. Dim ond y Cod a gyhoeddir trwy gyfraith. Gyda'i gilydd, maent yn gadael i'r cyhoedd wybod yr hyn a wna erlynyddion; sut maent yn gwneud eu penderfyniadau; a'r lefel gwasanaeth mae'r gwasanaeth erlyn wedi ymrwymo i'w ddarparu ym mhob agwedd allweddol o'i waith.

Mae'r llyfryn Safonau Ansawdd Craidd a'r Cod ar gael o'r pwyntiau cyswllt a restrir yng nghefn y llyfryn hwn.

Cyflwyniad

Rôl a phwrpas sylfaenol y CPS a'r RCPO yw amddiffyn y cyhoedd, cefnogi dioddefwyr a thystion a sicrhau cyfiawnder.

Amddiffyn y cyhoedd: fel erlynyddion, mae gennym rôl hanfodol i ostwng lefel troseddu ac amddiffyn y cyhoedd. Byddwn yn weladwy ac yn atebol; yn gynrychioliadol ac amrywiol. Byddwn yn ymdrin yn agored a gonest gyda'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Bydd ein penderfyniadau'n cael eu hysbysu gan bryderon y cyhoedd.

Cefnogi dioddefwyr a thystion: byddwn yn galluogi, yn annog ac yn cefnogi cyfranogiad effeithiol dioddefwyr a thystion yn ystod pob cam o'r broses cyfiawnder troseddol.

Sicrhau cyfiawnder: byddwn yn sicrhau bod y bobl gywir yn gwneud y penderfyniadau cywir am erlyn ar yr amser cywir. Byddwn yn ymdrin yn deg, yn briodol ac yn gadarn gydag ymddygiad troseddol yn y dull mwyaf effeithiol ac effeithlon ac mewn modd tryloyw fel bod y cyhoedd yn deall pam mae'r penderfyniadau wedi'u gwneud. Byddwn yn helpu i wneud system y llys mor effeithiol ac effeithlon ag sy'n bosibl. Byddwn yn parchu ac yn diogelu hawliau dynol pawb sy'n cael eu heffeithio gan ein penderfyniadau, gan gynnwys dioddefwyr, tystion, y rhai a ddrwgdybir a'r diffynyddion.

Safonau Ansawdd Craidd

Fel erlynyddion, defnyddiwn bŵer ar ran y cyhoedd. Rydym yn cyflenwi gwasanaeth cyhoeddus yn unol â chyfres o **Safonau Ansawdd Craidd** ar gyfer y cyhoedd sy'n amlinellu ansawdd y gwasanaeth y mae gan y cyhoedd yr hawl ei ddisgwyl gan y rhai sy'n erlyn ar eu rhan. Maent yn gymwys i bawb sy'n cyflenwi'r gwasanaeth erlyn cyhoeddus.

Mae'r safonau'n bwysig i ddioddefwyr, tystion, y rhai a ddrwgdybir a'r diffynyddion sy'n dibynnu ar erlynyddion i gyflawni eu dyletswyddau i safon uchel. Bydd yr heddlu, y llysoedd ac asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill hefyd eisiau deall y safonau oherwydd eu bod yn dibynnu ar erlynyddion i gyflenwi gwasanaeth effeithlon ac effeithiol. Mae'r cyhoedd a'r rhai sy'n arolygu, archwilio ac yn ymchwilio i erlynyddion angen sicrwydd bod y safonau'n cynrychioli dulliau heriol ac effeithlon o gyflenwi gwasanaeth cyhoeddus pwysig a byddant am ddal yr erlynyddion i gyfrif am eu cyflenwi.

Mae'r safonau'n dilyn arfer da ac yn adlewyrchu ein goblygiadau cyfreithiol a phroffesiynol. Maent wedi eu dylunio i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Rheolau Gweithdrefnau Troseddol[1]. Rydym wedi ymgynghori gydag erlynyddion ac ymarferwyr cyfiawnder troseddol eraill. Rydym wedi gofyn am farn ein paneli cyfranogiad y gymuned ac yn gwneud y safonau ar gael i'r cyhoedd er mwyn i ni allu elwa o brofiad y rhai sy'n dod i gysylltiad â ni a'r cyhoedd ehangach sydd angen hyder ym mherfformiad eu herlynyddion.

Mae'r safonau'n ymwneud â'n prif feysydd gwaith sy'n cael yr effaith fwyaf ar y cyhoedd. Ni fwriedir iddynt fod yn rhestr orffenedig o'r holl bethau rydym yn eu cyflawni yn ein gwaith achos. Maent yn cynnwys datganiad o swyddogaethau erlynyddion a nifer o ddatganiadau penodol a chryno o wasanaeth o safon. Maent yn cynrychioli edefyn

[1]Dyma reolau a gymeradwyir gan yr Arglwydd Brif Ustus sy'n delio â'r ffordd y dylai achosion gael eu paratoi gan yr erlyniad ac amddiffyniad a sut y dylai llysoedd reoli achosion. Maent ar gael ar wefan Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (www.justice.gov.uk) neu oddi wrth TSO Orders/Post Cash Department, The Stationery Office, PO Box 29, Norwich NR31GN.

canolog o ansawdd a ddylai lifo drwy bopeth a wna'r gwasanaeth erlyn. Wrth gydymffurfio â nhw, dylem bob amser gyfathrebu gyda'n hasiantaethau partner a'r cyhoedd yn gwrtais, yn barchus ac yn broffesiynol. Disgwyliwn i'r cyhoedd, yn arbennig y rhai sy'n dod i gysylltiad â'r gwasanaeth erlyn, ddefnyddio'r safonau, ynghyd â'n gwybodaeth perfformiad a gyhoeddwyd, i asesu pa mor dda rydym yn perfformio.

Cefnogir y safonau gan ddogfennau manylach sy'n ymwneud â phob agwedd o'n gwaith, gan gynnwys canllawiau ar sut i ddelio â mathau penodol o drosedd. Mae mwyafrif o'r dogfennau hyn ar gael ar ein gwefan www.cps.gov.uk neu ar gais (gweler cefn y llyfryn am fanylion).

Mae'n bwysig nodi bod gan y gwasanaeth erlyn ddyletswydd cyfrinachedd o safbwynt rhai dogfennau y cyfeiriwyd atynt yn y safonau; er enghraifft, y cofnodion o benderfyniadau cyhuddo a amlinellwyd yn safon 2.

Cefnogir y safonau hefyd gan gyfres o fesurau cyflenwi gwasanaeth a gyhoeddwyd a fydd yn gosod y perfformiad a ddisgwylir ym mhob safon. Bydd y mesurau hyn yn defnyddio data perfformiad a gesglir yn arferol gan ygwasanaeth erlyn. Bydd unrhyw fesurau perfformiad newydd yn cael eu hasesu'n ofalus i sicrhau eu bod yn darparu dulliau cywir a chost-effeithiol o asesu perfformiad. Byddwn yn adrodd yn ôl yn rheolaidd i'r cyhoedd am ein perfformiad o safbwynt y mesurau hyn.

Mae'r safonau'n sylfaenol bwysig i'r gwasanaeth erlyn cyhoeddus. Maent yn ein harwain wrth drefnu ein gweithrediadau a dyfeisio'r systemau a'r prosesau sy'n cefnogi ein gwaith. Disgwyliwn i'r cyhoedd ein dal i gyfrif os byddwn yn methu â darparu'r gwasanaeth a ddisgrifir ynddynt, a byddwn yn barnu ein llwyddiant fel erlynyddion yn ôl ein gallu i gyflenwi'r safonau ansawdd hyn yn gyson.

Mae pob un o'r 12 safon yn y ddogfen hon yn ymdrin â maes arbennig o'n gwaith. Mae rhestr o'r safonau i'w gweld ar dudalennau 6 a 7. Amlinellir eu cynnwys yn y tudalennau canlynol.

Byddwn yn adolygu'r safonau'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i ddisgrifio gwasanaeth ansawdd craidd. Hefyd, byddwn yn ychwanegu atynt wrth i ni ganfod meysydd craidd pellach lle bydd safonau'n bwysig.

Y Safonau Ansawdd Craidd

Safon 1: Byddwn yn cynghori'r heddlu ac ymchwilwyr eraill i'w cynorthwyo i fynd i'r afael â throseddu'n effeithiol a dwyn y troseddwyr i gyfiawnder.

Safon 2: Byddwn yn gwneud penderfyniadau cyhuddo amserol, effeithiol a theg yn unol â'r Cod Erlynyddion y Goron.

Safon 3: Byddwn yn delio â materion y tu allan i'r llys yn hytrach nag erlyn, pan fydd hynny'n briodol, i sicrhau iawndal cyflym i ddioddefwyr, ac i adsefydlu neu gosbi troseddwyr.

Safon 4: Byddwn yn gwrthwynebu mechnïaeth i ddiffynyddion pan fydd hynny'n briodol, gan ystyried yn arbennig y risg i ddioddefwyr a'r cyhoedd.

Safon 5: Byddwn yn paratoi ein holl achosion yn brydlon ac yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnau Troseddol er mwyn gallu cyflwyno pledion euog cyn gynted â phosib, ac er mwyn gallu cynnal treialon teg ar y dyddiadau penodedig.

Safon 6: Byddwn yn cyflwyno ein hachosion yn deg ac yn gadarn.

Safon 7: Byddwn yn asesu anghenion dioddefwyr a thystion, yn eu hysbysu'n gyson am gynnydd eu hachos ac yn chwilio am gefnogaeth briodol i'w helpu i roi eu tystiolaeth orau.

Safon 8: Byddwn yn egluro ein penderfyniadau i ddioddefwyr pan fyddwn yn atal achosion neu'n newid y cyhuddiad yn sylweddol.

Safon 9: Byddwn yn cynorthwyo'r llys yn y broses ddedfrydu ac yn ceisio atafaelu elw trosedd.

Safon 10: Byddwn yn ystyried p'un a ddylem weithredu ein hawliau apêl pan fyddwn yn credu bod y llys wedi gwneud y penderfyniad cyfreithiol anghywir.

Safon 11: Byddwn yn delio'n brydlon ac yn agored gyda chwynion am ein penderfyniadau a'r gwasanaeth a ddarperir gennym.

Safon 12: Byddwn yn ymgysylltu â chymunedau fel ein bod yn ymwybodol o'u pryderon pan yr ydym yn gwneud penderfyniadau.

Safon 1

Byddwn yn cynghori'r heddlu ac ymchwilwyr eraill i'w cynorthwyo i fynd i'r afael â throseddu'n effeithiol a dwyn y troseddwyr i gyfiawnder

1.1 Rydym yn cynghori'r heddlu ac ymchwilwyr eraill pan ofynnant i ni, sydd o bosib weithiau cyn eu bod yn barod i arestio person a ddrwgdybir. Mae hyn yn digwydd fel rheol:

a) pan gredir bod y rhai a ddrwgdybir yn cynrychioli risg ddifrifol neilltuol i'r cyhoedd;

b) pan fo angen penderfyniadau pwysig a allai effeithio ar y ffordd y gellir defnyddio tystiolaeth yn y llys;

c) pan fo cymuned neilltuol neu grŵp o bobl yn cael eu heffeithio gan ymddygiad troseddol cyson neu ymddygiad gwrthgymdeithasol; neu

d) pan fo ymchwiliad yn cael ei gynnal i drosedd anghyffredin neu sensitif, fel dynladdiad corfforaethol neu dwyll etholiadol.

1.2 Rydym yn amcanu at roi cyngor o safon uchel o fewn cyfnod amser caeth cytunedig.

1.3 Rhoddir cyngor neu fe'i cadarnheir yn ysgrifenedig, gyda rhesymau, a, ble bo'n briodol, rhestr o bwyntiau gweithredu.

1.4 Rydym yn cynghori ar:

a) troseddau posibl i gyhuddo neu ddulliau eraill o fynd i'r afael â'r troseddu, er mwyn gallu canolbwyntio'n gywir ac yn effeithlon ar yrymchwiliad;

b) llinellau ymchwilio tebygol i lunio achos mor gadarn ag sy'n bosibl;

c) derbynioldeb tebygol tystiolaeth;

d) sut y dylid casglu tystiolaeth fel y gellir ei chyflwyno orau yn y llys;

e) yr angen posib am dystiolaeth arbenigol;

f) sut y dylid coladu deunydd na ddefnyddiwyd;

g) y potensial ar gyfer gofyn i'r llys wneud gorchmynion atodol, fel Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, a chasglu'r dystiolaeth angenrheidiol i gefnogi'r ceisiadau;

h) y defnydd o bwerau arbennig sydd angen cydsyniad erlynydd i sicrhau cydweithrediad tystion neu orchymyn llys i gael tystiolaeth;

i) estraddodiad person a ddrwgdybir;

j) atal asedau person a ddrwgdybir; a

k) sut i gael tystiolaeth o dramor.

Safon 2

Byddwn yn gwneud penderfyniadau cyhuddo amserol, effeithiol a theg yn unol â'r Cod Erlynyddion y Goron[2]

2.1 Rydym yn gwneud penderfyniadau p'un a ddylid cyhuddo person a ddrwgdybir mewn achosion mwy difrifol neu gymhleth. Wrth wneud penderfyniadau, rydym yn cymhwyso'r profion a'r canllawiau a amlinellir yng Nghod Erlynyddion y Goron. Disgrifir y gweithdrefnau manwl a ddilynir gan yr heddlu ac erlynyddion yng Nghanllawiau'r Cyfarwyddwr ar Gyhuddo[10].

2.2 Amcanwn at wneud ein penderfyniad a hysbysu'r heddlu neu ymchwilydd arall o fewn cyfnodau amser caeth cytunedig.

2.3 Rydym yn cofnodi'r rhesymau dros y penderfyniad cyhuddo, sut y bydd yr erlyniad yn cyflwyno'i achos yn y llys a sut y delir ag unrhyw wendidau neu amddiffyniad tebygol. Rydym hefyd yn amlinellu unrhyw waith pellach sydd ei angen, yn cynnwys:

a) pa dystiolaeth ychwanegol benodol ddylid ei cheisio i gryfhau'r achos, neu i gefnogi ceisiadau ar gyfer gorchmynion atodol fel Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol neu Orchmynion Ataliol;

b) p'un a yw'r achos yn addas ar gyfer atafaelu asedau'r diffynnydd fel y gall yr heddlu gychwyn ar y gwaith angenrheidiol mewn da bryd;

c) pa dystiolaeth ddylai'r eiriolwr yn y llys geisio cytuno arni gyda'r amddiffyniad er mwyn osgoi presenoldeb diangen tystion;

d) canfod os oes gan dystion anghenion penodol, ac os yw hyn eisoes yn hysbys, amlinellu sut y byddant yn cael eu cwrdd,

[2] a [3] Ar gael ar ein gwefan (www.cps.gov.uk) neu ar gais (gweler cefn y llyfryn am fanylion).

yn cynnwys pa fesurau arbennig sydd eu hangen i alluogi tystion bregus neu rai sydd wedi'u bygwth roi eu tystiolaeth yn effeithiol;

e) pa dystiolaeth fydd angen caniatâd y llys i'w defnyddio (er enghraifft tystiolaeth cymeriad gwael a thystiolaeth achlust) os yw'r diffynnydd yn pledio'n ddieuog yn y llys; a

f) pa wybodaeth sydd eisoes ar gael a ddylid ei chynnwys ar atodlenni deunydd na ddefnyddiwyd.

2.4 Ble'r ystyrir y byddai'n ddefnyddiol wrth asesu dibynadwyedd tystiolaeth tyst neu ddeall yn well dystiolaeth gymhleth, dylai erlynydd sydd wedi'i hyfforddi a'i awdurdodi'n briodol gynnal cyfweliad cyn-achos gyda'r tyst yn unol â'r Cod Ymarfer perthnasol.

2.5 Rydym hefyd:

a) yn amlinellu p'un a ddylid gwrthwynebu mechnïaeth ac, os felly, y rhesymau, neu, os yn briodol, pa amodau y dylai'r eiriolwr ofyn i'r llys eu gosod;

b) dynodi os caiff mechnïaeth ei rhoi er gwaethaf gwrthwynebiad yr erlyniad, p'un a oes hawl i apelio a p'un a ddylai'r eiriolwr ei ddefnyddio;

c) dynodi p'un a yw'r achos yn addas ar gyfer delio ag ef mewn llys ynadon, ynteu a yw mor ddifrifol fel y dylai'r eiriolwr ofyn i'r ynadon ei draddodi i Lys y Goron;

d) amlinellu unrhyw bledion euog amgen derbyniol, neu sail ple, gan ofalu sicrhau y gall y llys ddedfrydu yn unol â difrifoldeb y drosedd, yn enwedig pan fo nodweddion gwaethygu yn bodoli; a

e) dynodi unrhyw orchmynion y dylai'r eiriolwr ofyn i'r llys eu gwneud yn ychwanegol at ddedfrydu'r diffynnydd.

2.6 Pan fo'r penderfyniad i beidio cyhuddo, bydd yr erlynydd yn amlinellu pa elfennau o'r drosedd na ellir ei phrofi, y rhesymau dros hyn, neu, ble bo'n briodol, pam nad oes angen erlyniad er budd y cyhoedd.

Safon 3

Byddwn yn delio â materion y tu allan i'r llys yn hytrach nag erlyn, pan fydd hynny'n briodol, i sicrhau iawndal cyflym i ddioddefwyr, ac i adsefydlu neu gosbi troseddwyr

3.1 Ar ôl gwneud penderfyniad bod digon o dystiolaeth i gyfiawnhau erlyniad, dylem ystyried p'un a ellir delio â materion y tu allan i lys heblaw am erlyniad sy'n briodol i ddifrifoldeb a chanlyniadau'r drosedd, ac sy'n cwrdd ag amcanion adsefydlu, gwneud iawn neu gosb.

3.2 Tra bod yr heddlu a chyrff ymchwilio eraill yn gweinyddu rhai materion y tu allan i lys eu hunain, maent angen awdurdod erlynydd cyn cynnig rhybudd syml[4] ar gyfer trosedd sydd mor ddifrifol fel, petai cyhuddiad yn dilyn, mai yn Llys y Goron yn unig y gellid delio â hi. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol yn unig yr ydym yn awdurdodi rhybuddion ar gyfer troseddau o'r fath. Gallwn hefyd gyfarwyddo'r heddlu i gynnig rhybudd syml mewn achosion eraill os yw'r troseddwr wedi cyfaddef ei euogrwydd ef neu hi'n glir, neu awgrymu, er enghraifft, rhoi Hysbysiad Cosb am Anhrefn. Fodd bynnag, mater i'r heddlu yw penderfynu ynglŷn â rhoi Hysbysiad Cosb am Anhrefn.

3.3 Bydd yr heddlu ac ymchwilwyr eraill hefyd angen awdurdod erlynydd cyn cynnig rhybudd amodol. Mewn rhybudd amodol, gosodwn amodau y mae'n rhaid i droseddwyr gydymffurfio â nhw.

3.4 Wrth benderfynu p'un a ddylid cynnig rhybudd syml neu rybudd amodol, rydym yn cymryd i ystyriaeth y ffactorau budd i'r cyhoedd a amlinellir yng Nghod Erlynyddion y Goron, yn benodol barn unrhyw ddioddefwr, a'r canllaw a roddir yng Nghanllawiau'r Cyfarwyddwr ar Rybuddio Amodol a

[4] Ni ellir rhoi rhybudd syml i droseddwyr ifanc. Fodd bynnag, gellir rhoi Cerydd neu Rybudd Terfynol iddynt. Er hwylustod, defnyddiwn y gair rhybudd yn y Safonau hyn i gyfeirio at y cosbau hyn hefyd. Gellir rhoi rhybudd amodol i droseddwyr ifanc.

Chylchlythyrau perthnasol y Swyddfa Gartref.

3.5 Wrth benderfynu p'un a ddylid cynnig rhybudd amodol, rydym hefyd yn ystyried:

a) p'un a oes cyfle i'r troseddwr wneud iawn am yr hyn a wnaeth yn hytrach na gorfod mynd i'r llys. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd yn talu am drwsio difrod, neu'n rhoi iawndal i'r dioddefwr;

b) p'un a fyddai gofynion arnynt i fynychu rhaglen i helpu iddynt ddelio ag achos gwaelodol eu troseddu (fel camddefnydd alcohol neu gyffuriau) yn debygol o'u rhwystro rhag troseddu;

c) p'un a yw er budd y person a ddrwgdybir, i ddioddefwr neu'r gymuned; a

d) p'un y dylid ei gwneud yn ofynnol i'r troseddwr dalu cosb ariannol neu ymgymryd â gwaith di-dâl.

3.6 Ni ellir awdurdodi rhybudd amodol am drosedd o drais oni bai bod yr achos yn un llai ac y gellid delio ag ef mewn llys ynadon, petai cyhuddiad yn cael ei wneud.

3.7 Os bydd y person a ddrwgdybir yn methu â derbyn y cynnig o rybudd syml neu nad yw'n cyfaddef euogrwydd pan gynigir rhybudd amodol iddo ef neu iddi hi a chytuno i'w amodau, rhaid iddo ef neu iddi hi gael ei erlyn am y drosedd wreiddiol.

3.8 Os nad yw'r troseddwr yn cydymffurfio â thelerau delio â'r materion tu allan i lys, byddwn yn ystyried y budd cyhoeddus ac yn penderfynu p'un a ddylid ei erlyn ef neu hi. Fel rheol, dylid erlyn am y drosedd wreiddiol.

3.9 Gallwn ddod â rhybuddion syml a rhybuddion amodol i sylw'r Llys os bydd y troseddwr yn cael ei gyhuddo'n ddiweddarach o unrhyw drosedd bellach.

Safon 4

Byddwn yn gwrthwynebu mechnïaeth i ddiffynyddion pan fydd hynny'n briodol, gan ystyried yn arbennig y risg i ddioddefwyr a'r cyhoedd

4.1 Mae gan bron pob diffynnydd hawl awtomatig i fechnïaeth, oni bai y gellir sefydlu bod un neu fwy o nifer penodol o seiliau dros atal mechnïaeth[5].

4.2 Ym mhob gwrandawiad, mae'r eiriolwr yn ystyried p'un a oes rhesymau i wrthwynebu mechnïaeth, neu i ofyn i'r llys osod cyfyngiadau ar fechnïaeth y diffynnydd.

4.3 Wrth benderfynu ar hyn, byddwn yn ystyried:

a) p'un a yw'r drosedd yn un o nifer gyfyngedig ble bo rhaid cael amgylchiadau eithriadol cyn y gellir rhoi mechnïaeth i ddiffynnydd;

b) natur a chryfder y dystiolaeth yn erbyn y diffynnydd;

c) difrifoldeb y drosedd y cyhuddwyd ef neu hi ohoni;

d) euogfarnau blaenorol y diffynnydd, gan gynnwys ei hanes ef neu hi o gydymffurfio â mechnïaeth;

e) p'un a yw'r diffynnydd eisoes ar fechnïaeth am droseddau eraill;

f) unrhyw hanes o gwynion o natur debyg;

g) unrhyw wybodaeth bod y diffynnydd yn debygol o ymyrryd â thystion neu dystiolaeth; ac

[5] Mae tri phrif reswm, y gellir eu crynhoi fel bod rhesymau sylweddol dros gredu y byddai'r diffynnydd, petai'n cael ei ryddhau ar fechnïaeth: yn methu â mynychu llys; yn cyflawni trosedd arall tra ar fechnïaeth; neu'n ymyrryd â thystion neu fel arall amharu ar gwrs cyfiawnder; p'un a yw mewn cyswllt ag ef ei hun neu berson arall.

h) unrhyw beth arall sy'n hysbys am y diffynnydd, fel canlyniadau prawf cyffuriau yng ngorsaf yr heddlu.

4.4 Yn y gwrandawiad, mae'r eiriolwr yn amlinellu'r rhesymau penodol dros ein gwrthwynebiad i roi mechnïaeth neu dros ofyn am osod amodau a bydd yn amlinellu'r wybodaeth sydd ar gael i gefnogi pob un o'r rhesymau, gan gynnwys unrhyw bryderon a fynegwyd gan y dioddefwr yngl n â rhoi mechnïaeth i'r diffynnydd.

4.5 Pan fo gan yr erlyniad hawl apêl yn erbyn rhoi mechnïaeth (hynny yw pan fo'r drosedd yn cario dedfryd bosib o garchar), rydym yn penderfynu ymlaen llaw p'un a yw'r risg i'r dioddefwr neu'r cyhoedd yn cyfiawnhau apêl os yw'r ynadon yn rhoi mechnïaeth. Os yw'r ynadon yn rhoi mechnïaeth mewn achos ble rydym wedi penderfynu y byddai'n briodol apelio, mae'r eiriolwr yn rhoi rhybudd yn syth i'r llys ein bod yn bwriadu apelio, fel y gellir cadw'r diffynnydd yn y ddalfa hyd nes y clywir yr apêl.

4.6 Mae gan ddiffynyddion hawl i apelio i farnwr yn erbyn atal mechnïaeth neu osod amodau mechnïaeth gan ynadon. Rydym yn mynychu gwrandawiad yr apêl i wrthwynebu'r cais neu i awgrymu amodau priodol os bydd barnwr yn bwriadu caniatáu mechnïaeth neu newid yr amodau presennol.

4.7 Pan fydd diffynnydd yn cael ei ddwyn yn ôl i'r llys am dorri amodau ei fechnïaeth neu'n ymddangos i swyddog yr heddlu fel ei fod yn debygol o dorri amodau ei fechnïaeth, mae'r eiriolwr yn cyflwyno datganiadau i'r ynadon ynglŷn â ddylid diddymu ei fechnïaeth neu newid yr amodau.

4.8 Mae'r eiriolwr yn gwneud nodiadau manwl ar y ffeil achos yn nodi p'un a wnaethom wrthwynebu mechnïaeth ac os felly, y rhesymau a gyflwynwyd gennym dros wrthwynebu mechnïaeth neu geisio amodau, ac unrhyw gyflwyniadau a wnaed gan yr

amddiffyniad amdanynt. Mae hyn yn ein helpu i ddelio ag unrhyw awgrym diweddarach bod amgylchiadau wedi newid a allai gyfiawnhau caniatáu mechnïaeth neu lacio unrhyw amodau mechnïaeth, ac i ddynodi unrhyw amddiffyniadau tebygol i'r cyhuddiad(au).

Safon 5

Byddwn yn paratoi ein holl achosion yn brydlon ac yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnau Troseddo[6] er mwyn gallu cyflwyno pledion euog cyn gynted â phosib, ac er mwyn gallu cynnal treialon teg ar y dyddiadau penodedig

Gwrandawiad cyntaf achos mewn llys ynadon

5.1 Mae pob diffynnydd yn gwneud ei ymddangosiad cyntaf yn y llys mewn llys ynadon.

5.2 Mae eiriolwyr yn paratoi ar gyfer y gwrandawiad cyntaf drwy:

a) ystyried y penderfyniad i gyhuddo a'r cyfarwyddiadau a p'un a oes angen unrhyw adolygiad pellach o'r achos;

b) pan fydd yr heddlu wedi cyhuddo yn yr achos, gan fodloni eu hunain bod y cyhuddiadau'n briodol ac y gellir eu profi, a bod angen erlyn er budd y cyhoedd;

c) os bydd yr heddlu wedi atal mechnïaeth, penderfynu p'un a ddylid gofyn am gadw yn y ddalfa neu atodi amodau priodol at fechnïaeth y diffynnydd;

d) paratoi unrhyw ddatganiadau sydd i'w gwneud i'r llys yn gwrthwynebu mechnïaeth neu ynglŷn â gosod amodau mechnïaeth; a

e) cymryd camau i sicrhau y gellir gwneud cynnydd yn yr achos ac osgoi unrhyw ohiriadau diangen, fel sicrhau bod yr amddiffyniad a'r llys wedi derbyn manylion cychwynnol achos yr erlyniad.

[6] Dyma reolau a gymeradwyir gan yr Arglwydd Brif Ustus sy'n delio â'r ffordd y dylai achosion gael eu paratoi gan yr erlyniad ac amddiffyniad a sut y dylai llysoedd reoli achosion. Maent ar gael ar wefan Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (www.justice.gov.uk) neu oddi wrth TSO Orders/Post Cash Department, The Stationery Office, PO Box 29, Norwich NR3 1GN.

5.3 Mewn da bryd cyn i'r llys gychwyn, mae eiriolwyr yn sicrhau eu bod ar gael i gwrdd ag ymgynghorydd cyfreithiol y llys, cyfreithwyr yr amddiffyniad a swyddogion o'r Gwasanaeth Prawf neu Wasanaeth Troseddau Ieuenctid i ddynodi achosion sy'n debygol o arwain at ble euog fel y gellir, ble mae'n bosib, baratoi adroddiadau cyn-dyfarnu ar y diwrnod er mwyn galluogi i'r llys ddedfrydu'r troseddwr heb ymddangosiad arall.

5.4 Pan fo'r diffynnydd yn pledio'n euog, bydd yr eiriolwr:

a) yn amlinellu ffeithiau'r achos, gan gynnwys, ble bo'n briodol, unrhyw ddeunydd gweledol a gofnodwyd a Datganiad Personol y Dioddefwr, i'r ynadon er mwyn iddynt allu rhoi dyfarniad sy'n adlewyrchu'n gywir ddifrifoldeb y drosedd;

b) yn tynnu sylw at unrhyw euogfarnau blaenorol a, ble bo'n briodol, rybuddion syml neu rybuddion amodol a gofnodwyd yn erbyn y troseddwr[7];

c) yn sicrhau bod y llys yn ymwybodol o'i bwerau dedfrydu, gan gynnwys unrhyw ddedfryd neu orchymyn y mae'n rhaid ei basio trwy ddeddf; ac

e) yn gofyn i'r llys ystyried unrhyw orchmynion atodol priodol fel iawndal neu Orchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol neu Orchymyn Ataliol a all gyfyngu ar allu'r troseddwr i droseddu yn y dyfodol. Rydym yn dweud mwy am rôl yr erlynydd yn y broses ddedfrydu yn safon 9.

5.5 Pan fo ynadon yn trosglwyddo'r diffynnydd i Lys y Goron i'w ddedfrydu (oherwydd eu bod yn ystyried bod y ddedfryd fwyaf y gallent ei rhoi'n annigonol), rydym yn anfon copïau o'r

[7] Ni ellir rhoi rhybudd syml i droseddwyr ifanc. Fodd bynnag, gellir rhoi Cerydd neu Rybudd Terfynol iddynt. Er hwylustod, defnyddiwn y gair rhybudd yn y Safonau hyn i gyfeirio at y cosbau hyn hefyd. Gellir rhoi rhybudd amodol i droseddwyr ifanc.

dystiolaeth a rhestr o unrhyw euogfarnau, rhybuddion syml neu rybuddion amodol a gofnodwyd yn erbyn y troseddwr i Lys y Goron fel y gall y barnwr baratoi ar gyfer y gwrandawiad dedfrydu.

5.6 Os bydd y diffynnydd yn rhoi arwydd ei fod ef neu hi'n bwriadu pledio'n ddieuog, a bod yr achos yn un y gellir delio ag ef naill ai mewn llys ynadon neu Lys y Goron, mae'r eiriolwr yn rhoi gwybod i'r llys p'un a yw'r erlyniad yn ystyried bod yr achos yn addas iddynt ddelio ag ef, neu ei fod mor ddifrifol fel y dylid ei draddodi i Lys y Goron i gynnal treial.

5.7 Os bydd yr achos yn mynd o flaen y llys ynadon, bydd yr eiriolwr:

a) yn trafod gydag eiriolwr yr amddiffyniad pa dystiolaeth y gellid cytuno arni heb fod angen i'r tystion perthnasol fynychu'r llys;

b) yn helpu'r llys i ddynodi'r materion sydd i'w rhoi ar brawf;

c) yn sicrhau bod y llys yn ymwybodol o ddyddiadau'r treial sy'n anghyfleus i dystion yr erlyniad;

d) yn gofyn i'r llys roi cyfarwyddiadau am yr amserlen ar gyfer paratoi'r treial, gan gynnwys ceisiadau am fesurau arbennig i helpu tystion roi eu tystiolaeth yn effeithiol a rhybuddion i ddefnyddio tystiolaeth cymeriad gwael neu dystiolaeth achlust; ac

e) yn cofnodi ar y ffeil pa waith pellach fydd angen i'r erlyniad ei wneud er mwyn bod yn barod ar gyfer y treial a'r amserlenni ar gyfer ei wneud.

5.8 Os oes raid anfon yr achos i Lys y Goron[8], neu fod ynadon yn penderfynu ei fod mor ddifrifol fel y dylid cynnal y treial yn Llys y Goron, neu fod y diffynnydd yn dewis cael ei dreial yn Llys y Goron mewn achos ble y caniateir iddo ef neu iddi hi wneud hynny, rydym yn cynorthwyo ynadon i osod dyddiad ar gyfer y gwrandawiad nesaf drwy amcangyfrif pa mor hir fyddwn ni a'r heddlu neu ymchwilydd arall ei angen i gwblhau'r gwaith sydd ei angen ar gyfer y gwrandawiad nesaf.

Paratoi ar gyfer treialon neu achosion traddodi mewn llysoedd ynadon a gwrandawiadau cyntaf achosion a anfonwyd i Lys y Goron

5.9 Cyn gynted â phosib ar ôl i ddiffynnydd bledio'n ddieuog mewn llys ynadon neu i'r achos gael ei ohirio ar gyfer achosion traddodi neu ei anfon i Lys y Goron, rydym yn penderfynu pa gamau ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer y gwrandawiad nesaf yn yr achos.

5.10 O fewn cyfnod amser caeth, byddwn yn gofyn i'r heddlu neu i ymchwilwyr eraill:

a) i anfon ffeil atom yn cynnwys y dystiolaeth a deunydd arall a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad ac i gwblhau unrhyw gamau nad ydynt wedi'u cyflawni o'r penderfyniad cyhuddo gwreiddiol;

b) i anfon atom unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth ychwanegol angenrheidiol ar gyfer y gwrandawiad nesaf, gan gynnwys cynlluniau neu luniau i wneud yr achos yn haws i'r llys ei ddeall;

[8] Dim ond yn Llys y Goron y gellir delio â rhai achosion difrifol iawn. Maent yn cael eu hanfon yno'n brydlon gan lys ynadon o dan weithdrefn arbennig heb angen am achos traddodi.

c) i gyflawni unrhyw waith penodol arall a nodwyd yn y gwrandawiad llys blaenorol; ac

d) i anfon atom atodlen o'r deunyddiau perthnasol na ddefnyddiwyd ond a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad er mwyn i ni allu cydymffurfio â'n dyletswydd gyfreithiol i ddatgelu i'r diffynnydd unrhyw ddeunydd neu wybodaeth a all danseilio achos yr erlyniad neu gynorthwyo achos yr amddiffyniad.

5.11 Pan fydd yr achos i'w gynnal mewn llys ynadon, o fewn cyfnod amser caeth, byddwn hefyd yn gofyn i'r Uned Gofal Tystion[9] ddweud wrth y tystion sydd i roi tystiolaeth mewn llys am ddyddiad y treial ac i drafod gyda nhw pa gymorth y byddant o bosib ei angen yn y llys a chyn y treial. Mewn achosion Llys y Goron, gofynnwn iddynt wneud hyn ar ôl i'r diffynnydd bledio'n ddieuog.

5.12 Amcanwn at ddelio â deunydd newydd sydd wedi'i gyflwyno gan yr heddlu neu ymchwilwyr eraill a gohebiaeth oddi wrth yr amddiffyniad o fewn cyfnod amser caeth i'w derbyn.

5.13 Wrth baratoi'r achos ar gyfer y treial, traddodi neu'r gwrandawiad cyntaf yn Llys y Goron, byddwn:

a) yn asesu p'un a oes digon o dystiolaeth yn parhau i fod i roi rhagolwg realistig o euogfarn a p'un a yw'r angen am erlyniad er budd y cyhoedd yn parhau, gan ddynodi'r hyn a ddigwyddodd ers i'r erlynydd ystyried yr achos y tro cyntaf;

b) yn penderfynu p'un a ddylid chwilio am dystiolaeth ychwanegol i atgyfnerthu'r achos;

[9] Mae'r gwasanaeth erlyn a'r heddlu wedi sefydlu Unedau Gofal Tystion ar y cyd i drefnu ar gyfer tystion yr erlyniad fynychu'r llys, asesu eu hanghenion fel y gallant roi eu tystiolaeth yn effeithiol ac i'w hybysu ynglŷn â chynnydd eu hachos a'i ganlyniadau.

c) os na ellir parhau â'r drosedd a gyhuddwyd, ystyried unrhyw drosedd arall y gellir ei phrofi a ble mae angen erlyniad er budd y cyhoedd;

d) yn paratoi nodyn ar gyfer yr eiriolwr ym mhob achos heblaw'r rhai symlaf, gan amlinellu sut bydd pob elfen o'r drosedd yn cael ei phrofi gan gynnwys cryfderau a gwendidau'r dystiolaeth, sut dylid delio ag amddiffyniad tebygol y diffynnydd a p'un a oes angen erlyniad o hyd er budd y cyhoedd;

e) yn amlinellu unrhyw bledion euog derbyniol eraill, neu seiliau i bledion, gan ofalu sicrhau y gall y llys roi dedfryd sy'n cyfateb i ddifrifoldeb y drosedd;

f) yn rhoi i'r amddiffyniad gopïau o unrhyw dystiolaeth ychwanegol y bwriadwn ddibynnu arni;

g) os na wnaed hynny eisoes, paratoi ceisiadau neu rybuddion ysgrifenedig ar gyfer unrhyw fesurau arbennig i alluogi tystion i roi eu tystiolaeth yn effeithiol ac am ganiatâd i ddefnyddio unrhyw dystiolaeth ble bo angen caniatâd y llys;

h) penderfynu p'un a ddylid datgelu unrhyw ddeunydd nad yw wedi'i ddefnyddio i'r amddiffyniad oherwydd y gallai danseilio achos yr erlyniad neu gynorthwyo achos yr amddiffyniad;

i) penderfynu p'un a yw unrhyw ddeunydd a allai danseilio achos yr erlyniad neu gynorthwyo achos yr amddiffyniad mor sensitif fel y dylid gofyn i'r llys p'un a ellir ei atal;

j) yn anfon atodlen o'r holl ddeunydd na ddefnyddiwyd, nad yw'n ddeunydd sensitif ond a ystyriwyd gennym, at yr amddiffyniad gyda chopïau o unrhyw ddeunydd i'w ddatgelu neu gyfarwyddiadau ynglŷn â ble y gellir eu harchwilio. Byddwn yn dweud mwy am hyn ym mharagraffau 19 i 25 o'r safon hwn;

k) sicrhau bod y dioddefwr wedi cael cyfle i baratoi Datganiad Personol y Dioddefwr i'w ddefnyddio yn ystod y gwrandawiad dedfrydu os bydd y diffynnydd yn cael ei euogfarnu;

l) ble bo'n bosib, trefnu i dyst y mae ei gyfweliad fideo sydd i'w chwarae i'r llys weld y recordiad cyn y treial i'w atgoffa cyn iddynt roi tystiolaeth; a

m) gwirio y delir ag unrhyw anghenion eraill sydd gan dystion a bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod tystion yn mynychu'r llys.

5.14 Gofynnwn i'r heddlu neu ymchwilwyr eraill a'r amddiffyniad ymateb i unrhyw faterion na ddeliwyd â nhw eisoes cyn gynted â phosib.

5.15 Os yw'n debygol am ba bynnag reswm na fydd yr achos yn medru mynd ymlaen ar y dyddiad penodedig, gofynnwn i'r llys ystyried gosod dyddiad newydd.

Gwaith ychwanegol angenrheidiol wrth baratoi achosion ar gyfer Llys y Goron

5.16 Pan fo achos i'w glywed yn Llys y Goron, byddwn yn paratoi ditiad sy'n amlinellu'r honiadau yn erbyn y diffynnydd yn y termau ffurfiol sy'n ofynnol gan Lys y Goron.

5.17 Byddwn hefyd yn paratoi cyfarwyddiadau ysgrifenedig i'r eiriolwr a fydd yn cyflwyno'r achos yn Llys y Goron. Bydd yr holl eiriolwyr a gymeradwywyd i gynrychioli'r erlyniad yn Llys y Goron yn cael cyfres o gyfarwyddiadau safonol dan y teitl *Cyfarwyddiadau'r CPS ar gyfer Eiriolwyr yr Erlyniad*[10]. Yn ychwanegol, byddwn:

[10] Mae'r gwasanaeth erlyn a'r heddlu wedi sefydlu Unedau Gofal Tystion ar y cyd i drefnu ar gyfer tystion yr erlyniad fynychu'r llys, asesu eu hanghenion fel y gallant roi eu tystiolaeth yn effeithiol ac i'w hybysu ynglŷn â chynnydd eu hachos a'i ganlyniadau.

a) yn amgáu copïau o'r holl dystiolaeth a gasglwyd yn yr achos, yr atodlen o ddeunydd nad oedd yn sensitif ac na chafodd ei ddefnyddio sy'n amlinellu penderfyniadau'r erlynydd ynglŷn â datgelu'r deunydd i'r amddiffyniad a'r holl ohebiaeth berthnasol gyda'r llys neu gyfreithwyr y diffynnydd fel eitemau mewn rhestr;

b) yn darparu copïau o unrhyw geisiadau neu rybuddion ysgrifenedig i ddefnyddio tystiolaeth sydd angen caniatâd y llys, fel mesurau arbennig i alluogi tystion roi tystiolaeth yn effeithiol, achlust neu dystiolaeth cymeriad gwael neu amlinellu pam nad yw un o'r ceisiadau hyn yn ymddangos fel rhywbeth sy'n angenrheidiol;

c) amlinellu sut y dylid cyflwyno'r achos er mwyn profi holl elfennau'r drosedd honedig a sut y delir ag unrhyw amddiffyniad tebygol neu wendidau yn yr achos;

d) darparu copi o benderfyniad cyhuddo'r erlynydd, neu mewn achosion ble bo'r heddlu wedi cyhuddo'r diffynnydd heb ganiatâd gan erlynydd, penderfyniad yr erlynydd i dderbyn yr achos;

e) yn dangos unrhyw ddarpariaethau cyfreithiol anghyffredin sy'n effeithio ar yr achos;

f) yn egluro pa waith pellach rydym wedi'i drefnu;

g) yn gofyn i'r eiriolwr gynghori'n brydlon ynglŷn ag unrhyw gamau pellach y mae ef neu hi'n ystyried fyddai'n atgyfnerthu'r achos neu'n helpu i'w gyflwyno'n gliriach i'r llys;

h) yn nodi pa bledion eraill, os o gwbl, rydym yn barod i'w derbyn oddi wrth y diffynnydd; dynodi unrhyw nodweddion

arbennig o'r achos sydd angen sylw'r eiriolwr cyn y treial, fel ceisiadau i gael a diogelu gwybodaeth gyfrinachol;

i) yn amlinellu p'un a yw'r diffynnydd yn y ddalfa ac unrhyw gyfyngiad amser yn y ddalfa neu, os bydd ef neu hi ar fechnïaeth, pa amodau sydd wedi'u gosod gan y llys;

j) yn egluro p'un a yw'n debygol y bydd angen gwŷs tyst neu warrant tyst i sicrhau presenoldeb unrhyw dyst yn y llys, neu'r rhesymau pam nad yw'n debygol y bydd eu hangen;

k) yn gofyn i'r eiriolwr benderfynu ar y drefn y bydd tystion yr erlyniad yn rhoi eu tystiolaeth fel nad oes angen iddynt fynychu'r llys am amser hwy na'r angen;

l) yn gosod dyddiadau ar gyfer derbyn unrhyw dystiolaeth hwyr, yn arbennig tystiolaeth wyddonol neu arbenigol arall; ac

m) yn rhoi manylion cyswllt yr erlynydd a'r swyddog paragyfreithiol sy'n gyfrifol am yr achos.

5.18 Gwnawn unrhyw waith ychwanegol y bydd yr eiriolwr yn cynghori sy'n angenrheidiol i sicrhau bod yr achos wedi'i baratoi'n drylwyr.

Datgelu gwybodaeth i ddiffynyddion sicrhau treial teg

5.19 Mae'n ofynnol ar i'r heddlu ac ymchwilwyr eraill baratoi atodlenni o'r holl ddeunydd perthnasol a gasglwyd yn ystod ymchwiliad fel rhan o dystiolaeth yr erlynydd ond na chafodd ei ddefnyddio a chyflwyno'r atodlenni i ni.

5.20 Ystyriwn yr atodlenni er mwyn penderfynu p'un a fydd unrhyw eitem ar y rhestr:

a) yn gorfod cael ei ddefnyddio fel rhan o dystiolaeth yr erlyniad;

b) efallai'n tanseilio achos yr erlyniad;

c) efallai'n cynorthwyo achos yr amddiffyniad; ac

d) p'un a fydd unrhyw rai ohonynt mor sensitif fel na ddylid eu datgelu i'r amddiffyniad.

5.21 Gofynnwn i'r heddlu neu ymchwilydd arall am gopïau o unrhyw eitemau a allai fod yn un o'r categorïau hyn er mwyn i ni eu hystyried ymhellach.

5.22 Rydym yn cofnodi ein penderfyniad ar gyfer pob eitem ar yr atodlenni, gan roi rhesymau dros hyn. Byddwn yn anfon yr atodlenni at yr amddiffyniad fel eu bod yn ymwybodol o'r holl ddeunydd sydd ar gael, heblaw unrhyw ran sydd mor sensitif fel na ddylid ei ddatgelu.

5.23 Mor fuan ag sy'n ymarferol, rydym yn darparu copïau i'r amddiffyniad o unrhyw ddeunydd nad yw'n sensitif ac nad yw wedi ei ddefnyddio, a all danseilio achos yr erlyniad neu gynorthwyo achos yr amddiffyniad, neu os na fydd yn ymarferol i'w gopïo, eu gwahodd i'w archwilio, fel arfer mewn gorsaf heddlu.

5.24 Pan fo gwybodaeth mor sensitif fel na ddylid ei datgelu i'r amddiffyniad, ac efallai y bydd yn tanseilio achos yr erlyniad neu'n cynorthwyo achos yr amddiffyniad, byddwn yn gofyn i'r llys benderfynu p'un a ddylid ei datgelu iddynt ynteu a ellir ei hatal.

5.25 Adolygwn y mater datgelu'n barhaus drwy gydol yr achos, ac wedi hynny, os y daw gwybodaeth newydd yn dod i'r amlwg a allai fod wedi tanseilio achos yr erlyniad neu gynorthwyo achos yr amddiffyniad. Byddwn yn ail ystyried ein penderfyniadau

datgelu pan fydd yr amddiffyniad yn sôn wrthym am eu hachos, gan gynnwys gofyn i'r heddlu neu ymchwilydd arall roi sylwadau ar wybodaeth gan yr amddiffyniad.

Terfyn amser yn y ddalfa

5.26 Am gyfnod cyfyngedig yn unig y gellir cadw diffynyddion yn y ddalfa i aros i gael eu traddodi ar gyfer treial neu i aros treial oni bai bod y llys yn cytuno i ymestyn y cyfnod.

5.27 Pan fo diffynnydd wedi'i gadw yn y ddalfa, bydd yr eiriolwr yn y gwrandawiad cyntaf a phob gwrandawiad dilynol yn cyhoeddi'r dyddiad pan fo'r terfyn amser yn y ddalfa perthnasol yn dod i ben.

5.28 Rydym yn nodi'r wybodaeth hon yn ein ffeil achos ac yna'n ei chofnodi yn ein dyddiaduron terfyn amser yn y ddalfa.

5.29 Rydym yn blaenoriaethu paratoi achosion yn y ddalfa i sicrhau y gall y treial ddechrau neu'r traddodi ddigwydd o fewn terfyn amser yn y ddalfa, neu ein bod yn gallu dweud ein bod wedi gweithredu mor ddyfal a hwylus ag y dylem os daw'n angenrheidiol gofyn i'r llys ymestyn y terfyn amser.

5.30 Rydym yn adolygu'r dyddiaduron terfyn amser yn y ddalfa a'n system rheoli achos gyfrifiadurol i wirio p'un a yw unrhyw derfyn amser yn y ddalfa'n agosáu. Mae rheolwr cyfreithiol enwebedig neu uwch erlynydd yn ystyried unrhyw achosion a nodir gan y gwiriadau o leiaf yn wythnosol. O fewn cyfnod amser caeth cyn i'r amser ddod i ben, anfonwn rybudd i'r llys a'r amddiffyniad os bydd yn ymddangos na fydd yr achos yn dechrau o fewn y terfyn amser fel y gall y llys ystyried p'un a ddylid rhoi estyniad. Rydym yn paratoi cronoleg o ddigwyddiadau i helpu'r llys benderfynu p'un a yw'r erlyniad wedi gweithredu mor ddyfal a hwylus ag y dylai.

5.31 Mae rheolwyr yn gwirio cydymffurfiant gyda'r systemau'n wythnosol ac yn paratoi sicrwydd ysgrifenedig ynglŷn â'r systemau sy'n cael eu gweithredu i Brif Erlynydd y Goron.

Safon 6

Byddwn yn cyflwyno'n hachosion yn deg a chadarn

Cynnal treialon[11]

6.1 Cyn y gwrandawiad, mae'r eiriolwr:

a) yn ystyried hanes llawn yr achos, gan gynnwys nodyn adolygu'r treial, i sicrhau bod popeth wedi'i baratoi'n gywir;

b) yn trafod, ble bo'n bosib, yr achos gyda'r swyddog ymchwilio i sicrhau ei fod ef neu hi'n ymwybodol o gefndir llawn yr achos;

c) ym mhob achos heblaw'r symlaf, yn paratoi araith agoriadol fer neu amlinelliad o'r dystiolaeth i gynorthwyo'r ynadon neu'r rheithgor ddeall yr achos neu, os bydd y diffynnydd yn pledio'n euog, cynorthwyo'r ynadon neu'r barnwr i ddedfrydu'r troseddwr;

d) yn paratoi cynllun dros dro i groesholi diffynnydd ac unrhyw dystion yr amddiffyniad y gwyddys amdanynt;

e) yn paratoi amlinelliad ysgrifenedig o unrhyw ddadl gyfreithiol i'w chyflwyno i'r ynadon neu i'r barnwr; ac

f) yn penderfynu ar y drefn i dystion yr erlyniad gyflwyno eu tystiolaeth yn achosion Llys y Goron ac achosion llysoedd ynadon sy'n debygol o barhau am fwy na diwrnod, er mwyn arbed iddynt fynychu'r llys yn hwy nag sydd angen.

[11] Mae'r gwasanaeth erlyn wedi amlinellu'r safonau a ddisgwylir gan eiriolwyr sy'n ymddangos mewn llys ar ei ran yn ***National Standards of Advocacy***, sydd ar gael ar ein gwefan (www.cps.gov.uk) neu ar gais (gweler cefn y llyfryn am fanylion).

6.2 Mae'r eiriolwr yn cyrraedd y llys mewn pryd i gyfarfod y tystion ac:

a) yn cyflwyno'i hun iddynt;

b) yn dangos iddynt, neu'n trefnu i gynrychiolydd o'r Gwasanaeth Tystion[12] ddangos iddynt, eu datganiadau tyst (neu eu cyfweliad a recordiwyd ar fideo os nad yw hyn wedi'i wneud eisoes) er mwyn eu hatgoffa cyn iddynt roi tystiolaeth;

c) yn egluro'r hyn fydd yn digwydd yn ystod y dydd, yn cynnwys effaith unrhyw fesurau arbennig a gytunwyd gan y llys i'w cynorthwyo i roi eu tystiolaeth; ac

d) yn ateb unrhyw gwestiynau sydd o bosib ganddynt cyn belled ag y caniateir hynny gan y gyfraith.

6.3 Yn ôl y rheolau eu proffesiwn, fodd bynnag, ni all eiriolwyr drafod tystiolaeth tyst na dweud wrthynt ba dystiolaeth y gall tystion eraill o bosib ei rhoi.

6.4 Yn ystod diwrnod y llys, bydd yr eiriolwr:

a) yn cyflwyno achos yr erlyniad yn agored, yn onest ac yn gywir, gan weithredu er budd cyfiawnder ac nid gyda'r unig nod o gael euogfarn;

b) yn hysbysu tystion yr erlyniad - naill ai'n uniongyrchol, neu os na allant adael ystafell y llys, drwy gynorthwyydd neu swyddog llys – am y rhesymau dros unrhyw oedi;

c) yn trin tystion a diffynyddion yn barchus yn y llys ac yn gofyn i'r llys ymyrryd i atal holi amhriodol o dystion yr erlyniad; ac

[12] Mae'r Gwasanaeth Tystion yn rhan o elusen genedlaethol sy'n rhoi cefnogaeth i dystion cyn ac yn ystod treial droseddol.

d) yn gofyn i'r llys am ganiatâd i dystion yr erlyniad adael y llys cyn gynted ag y byddant wedi rhoi eu tystiolaeth, os byddant yn dymuno gwneud hynny, oni bai bod rheswm digonol pam y dylent aros.

6.5 Bydd yr eiriolwr hefyd yn bersonol neu drwy gynorthwyydd:

a) yn trefnu i gyflwyno arddangosion ar yr amser priodol;

b) yn cydgysylltu â thystion yr erlyniad fel eu bod ar gael i roi tystiolaeth ar yr adeg gywir a'u hysbysu'n gyson am unrhyw oedi; ac

c) yn gwneud unrhyw olygu dogfennau munud olaf sy'n angenrheidiol o ganlyniad i benderfyniadau'r llys ynglŷn â dadleuon cyfreithiol.

6.6 Os bydd y diffynnydd yn cael ei euogfarnu, rhaid i eiriolwyr erlyniad gynorthwyo ynadon neu'r barnwr gyda'r broses ddedfrydu a, ble bo angen gohirio'r ddedfryd, gyda phenderfyniadau ynglŷn â ddylid cadw'r diffynnydd yn y ddalfa i ddisgwyl y ddedfryd. Rydym yn dweud mwy am rôl yr erlynydd wrth ddedfrydu yn Safon 9.

Delio â chynigion o bledion euog[13]

6.7 Mae nifer o ddiffynyddion yn cynnig pledio'n euog i rai o blith nifer o droseddau, i drosedd wahanol neu ar sail fersiwn arbennig o ddigwyddiadau. Mae hyn yn aml yn digwydd ar y funud olaf, yn aml ychydig amser cyn dechrau'r treial. Pryd bynnag bydd hyn yn digwydd, byddwn:

[13] Mae *The Attorney General's Guidelines on The Acceptance of Pleas and the Prosecutor's Role in the Sentencing Process* yn rhoi canllawiau manwl i lysoedd, erlynyddion, cyfreithwyr yr amddiffyniad a'r cyhoedd ar y mater hwn. Mae ar gael ar www.attorneygeneral.gov.uk neu ar gais (gweler cefn y llyfryn am fanylion).

a) yn ystyried unrhyw farn a fynegwyd gan y dioddefwr neu eu teulu, wrth benderfynu p'un a yw er budd y cyhoedd i dderbyn y cynnig;

b) yn sicrhau y gall y llys roi dedfryd sy'n cyfateb i ddifrifoldeb y troseddu, gan ystyried goblygiadau'r pledion arfaethedig ar gyfer argaeledd gorchmynion atodol priodol. Rydym yn sicrhau nad yw sail arfaethedig y ble wedi'i seilio ar gyfres gamarweiniol neu anwir o ffeithiau ac nad yw'n niweidiol i fudd y dioddefwr. Os na ellir cytuno ar sail ple, gall yr eiriolwr wahodd y llys i wrando ar dystiolaeth er mwyn iddo allu penderfynu ar ba sail i ddedfrydu'r troseddwr; ac

c) yn sicrhau bod unrhyw sail ple y cytunwyd arno'n cael ei gofnodi a'i lofnodi gan eiriolwr yr amddiffyniad ac eiriolwr yr erlyniad.

Safon 7

Byddwn yn asesu anghenion dioddefwyr a thystion, yn eu hysbysu'n gyson am gynnydd eu hachos ac yn chwilio am gefnogaeth briodol i'w helpu i roi eu tystiolaeth orau[14]

7.1 Wrth i ddelio â dioddefwyr a thystion, rydym yn talu sylw arbennig i'n dyletswydd i hyrwyddo cyfartaledd mynediad at gyfiawnder.

7.2 Dyrennir Swyddog Gofal Tyst, neu mewn achosion arbennig swydd o'r heddlu neu Swyddog Profedigaeth Teulu[15], i bob achos fel pwynt cyswllt unigol i'r dioddefwyr a thystion o'u hymddangosiad cyntaf hyd at ddiwedd yr achos. Mae ef neu hi'n hysbysu'r dioddefwyr a thystion ynglŷn â chynnydd bob cam o'r achosion llys, a cheisio sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu cwrdd. Mae ef neu hi hefyd yn sicrhau bod y dioddefwr wedi gwneud, neu y gofynnwyd iddynt a oeddent yn dymuno gwneud, Datganiad Personol Dioddefwr i'w ddarllen i'r llys os yw'r diffynnydd yn pledio'n euog neu'n cael ei euogfarnu.

7.3 Pan fydd diffynnydd yn pledio'n ddieuog, bydd y Swyddog Gofal Tystion:

a) yn hysbysu tystion sy'n gorfod rhoi tystiolaeth fyw o ddyddiad y treial o fewn cyfnod amser caeth i dderbyn y wybodaeth hon oddi wrth y gwasanaeth erlyn;

b) yn dilyn ple dieuog, yn cynnig asesiad anghenion llawn i dystion lleyg y disgwylir iddynt fynychu llys. Mae hyn yn rhoi cyfle iddynt drafod eu pryderon ynglŷn â mynychu llys, gan gynnwys, er enghraifft, help gyda gofal plant a phroblemau

[14] Gweler hefyd Adduned yr Erlynydd, Datganiad Polisi'r CPS ar Ddioddefwyr a Thystion, y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Trosedd a Siarter tystion, y cyfan ar gael ar ein gwefan (www.cps.gov.uk) neu ar gais (gweler cefn y llyfryn am fanylion).
[15] Mae'r Gwasanaeth Tystion yn rhan o elusen genedlaethol, Cymorth i Ddioddefwyr, ac mae'n cynnig cymorth i dystion cyn ac yn ystod treial troseddol.

teithio. Mae hefyd yn galluogi'r Swyddog Gofal Tystion i ymchwilio gyda'r tystion p'un a oes unrhyw angen am fesurau arbennig i'w galluogi i roi eu tystiolaeth yn effeithiol;

c) yn gwneud trefniadau arbennig ar gyfer tystion anabl, tystion â chyflyrau meddygol a'r rhai sydd angen cymhorthion cyfathrebu fel cyfieithydd, gan ofyn am ganiatâd y llys ble bo angen;

d) ble bo'n briodol, yn cyfeirio tyst at asiantaeth arall, fel grŵp cymorth perthnasol sy'n cynnig mwy o help penodol, pwrpasol; ac

e) yn rhoi tystion mewn cysylltiad â'r Gwasanaeth Tystion[16], sy'n rhoi cefnogaeth ymarferol ac emosiynol yn y cyfnod cyn y treial, ar ddiwrnod y treial ac, mewn achosion priodol, ar ôl hynny, yn cynnwys rhoi cyfle i dystion ymweld â'r llys cyn dyddiad y treial er mwyn eu helpu i gael gwell dealltwriaeth o broses y llys ac i'w gwneud i deimlo'n fwy esmwyth ar ddiwrnod y treial. Gall rhywfaint o'r gefnogaeth hon gael ei darparu gan Gefnogaeth i Ddioddefwyr.

7.4 Mae Swyddogion Gofal Tystion yn cyflawni swyddogaethau tebyg pan fydd angen i dyst fynychu llys uwch ar gyfer gwrandawiad apêl.

7.5 Pan fo achos wedi'i gwblhau, mae Swyddog Gofal Tystion yn hysbysu dioddefwyr a thystion am y deilliant yn y dull cyswllt a ffefrir ganddynt o fewn cyfnod amser caeth o dderbyn y canlyniad o'r llys. Maent yn gofyn iddynt hefyd os ydynt angen help gan unrhyw wasanaeth cymorth perthnasol.

7.6 Mewn achosion priodol mae erlynyddion yn cynnig cyfarfod tystion yn bersonol i asesu eu hangen am fesurau arbennig.

[16] Mae'r Gwasanaeth Tystion yn rhan o elusen genedlaethol, Cymorth i Ddioddefwyr, ac mae'n cynnig cymorth i dystion cyn ac yn ystod treial troseddol.

7.7 Mewn rhai achosion eithriadol iawn rydym yn gofyn i'r llys am ganiatâd i atal enw tyst ble gellir cyfiawnhau hyn.

7.8 Mewn achosion sy'n cynnwys marwolaeth, mae erlynyddion yn cynnig cyfarfod teulu'r dioddefwr o gyfnod cynnar i egluro sut y bydd yr achos yn cael ei drin a'r hyn a ddisgwylir fydd yn digwydd ym mhob gwrandawiad llys[17].

[17] Dyma a elwir yn gynllun Ffocws Dioddefwyr. Ceir mwy o fanylion ar ein gwefan (www.cps.gov.uk) neu ar gais (gweler cefn y llyfryn am fanylion).

Safon 8

Byddwn yn egluro ein penderfyniadau i ddioddefwyr pan fyddwn yn atal achosion neu'n newid y cyhuddiad yn sylweddol

8.1 Pan rydym yn bwriadu atal achos, neu newid y cyhuddiadau'n sylweddol, rydym yn ymgynghori â'r heddlu neu ymchwilwyr eraill, oni bai ei bod yn anymarferol i ni wneud hynny, cyn cyrraedd y penderfyniad terfynol. Pan fo'r penderfyniad arfaethedig wedi ei seilio ar fudd y cyhoedd, rydym yn cymryd i ystyriaeth unrhyw farn a fynegwyd gan y dioddefwr am yr effaith a gafodd y drosedd. Mewn achosion priodol, er enghraifft, achos o ddynladdiad neu ble bo'r dioddefwr yn blentyn neu'n oedolyn nad oes ganddo'r galluedd fel y'i diffinnir yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005, dylai erlynyddion gymryd i ystyriaeth unrhyw farn a fynegwyd gan deulu'r dioddefwr.

8.2 Pan fo'r erlynydd yn penderfynu atal achos neu wneud unrhyw newid sylweddol i'r cyhuddiadau sy'n wynebu'r diffynnydd, bydd ef neu hi'n ysgrifennu at y dioddefwr o fewn terfyn amser caeth i egluro'r rhesymau am ei benderfyniad neu ei phenderfyniad. Dylid ysgrifennu'r llythyr mewn modd sy'n cyflawni anghenion y dioddefwr ac amgylchiadau penodol yr achos.

8.3 Dylai'r eiriolwr siarad â dioddefwyr bregus neu rai sydd wedi eu bygwth wyneb-yn-wyneb os ydynt yn y llys ar y diwrnod y gwneir y penderfyniad cyn i ni ysgrifennu atynt.

8.4 Mae erlynyddion yn cynnig cyfarfod dioddefwyr rhai troseddau penodol yn bersonol i ateb eu cwestiynau am ein heglurhad ysgrifenedig.

8.5 Mae egwyddorion tebyg yn berthnasol mewn achosion difrifol neu gymhleth pan fyddwn yn penderfynu peidio ag awdurdodi'r heddlu neu ymchwilwyr eraill i gyhuddo person a ddrwgdybir, er yn y mwyafrif o achosion yr heddlu neu ymchwilwyr eraill sy'n darparu'r eglurhad.

Safon 9

Byddwn yn cynorthwyo'r llys yn y broses ddedfrydu ac yn ceisio atafaelu elw trosedd[18]

9.1 Cyfrifoldeb y llys yw dedfrydu. Rôl yr erlyniad wrth ddedfrydu yw cynorthwyo'r llys yn y broses ddedfrydu drwy ei wneud yn ymwybodol o'r holl wybodaeth berthnasol.

9.2 Cyn y gwrandawiad dedfrydu:

a) rydym yn rhoi crynodeb o'r achos i'r Gwasanaeth Prawf neu i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid er mwyn iddynt allu paratoi adroddiad cyn-dedfrydu realistig ar gyfer y llys;

b) bydd Swyddog Gofal Tystion yn gofyn neu'n trefnu i swyddog yr heddlu neu ymchwilydd arall ofyn i'r dioddefwr os ydynt yn dymuno gwneud Datganiad Personol Dioddefwr neu ddiweddaru un blaenorol;

c) mewn achosion lle mae materion dedfrydu'n debygol o fod yn gymhleth neu'n anghyfarwydd, neu lle mae'r llys yn gofyn i ni wneud hynny, rydym yn paratoi cyflwyniadau ysgrifenedig i'r llys yn amlinellu'r darpariaethau a'r canllawiau dedfrydu perthnasol, unrhyw orchmynion atodol sydd ar gael ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall nad yw eto'n hysbys i'r llys; a

d) ble bo angen, rydym yn paratoi ceisiadau ysgrifenedig ar gyfer unrhyw orchmynion atodol priodol fel Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol neu Orchmynion Ataliol.

[18] Mae *The Attorney General's Guidelines on The Acceptance of Pleas and the Prosecutor's Role in the Sentencing Process* yn rhoi canllawiau manwl i lysoedd, erlynyddion, cyfreithwyr yr amddiffyniad a'r cyhoedd ar y mater hwn. Mae ar gael ar www.attorneygeneral.gov.uk neu ar gais (gweler cefn y llyfryn am fanylion).

9.3 Yn y gwrandawiad bydd yr eiriolwr:

a) yn amlinellu ffeithiau'r achos i'r llys, gan dynnu sylw at unrhyw nodweddion gwaethygu'r drosedd ac unrhyw nodweddion lliniarol sy'n amlwg o achos yr erlyniad;

b) ble bo'n briodol, bydd yn rhoi rhestr o droseddau eraill i'r llys y mae'r diffynnydd yn dymuno i'r llys eu hystyried, er mwyn iddo allu eu hadlewyrchu yn y ddedfryd[19];

c) yn hysbysu'r llys am unrhyw euogfarnau blaenorol, rhybuddion syml[20] neu rybuddion amodol a gofnodwyd yn erbyn y troseddwr, gan dynnu sylw arbennig at y rhai sydd am droseddau tebyg;

d) yn hysbysu'r llys am ganlyniadau unrhyw brawf cyffuriau a gynhaliwyd yng ngorsaf yr heddlu; ac

e) yn gwirio p'un a yw'r adroddiad cyn-dedfrydu wedi'i seilio ar asesiad cywir o'r dystiolaeth ac, os nad yw, yn tynnu sylw'r llys at hyn.

9.4 Mae'r eiriolwr hefyd yn tynnu sylw at effaith ymddygiad y troseddwr trwy:

a) gyflwyno Datganiad Personol Dioddefwr i'r llys, pan fo un ar gael;

b) ofyn i'r llys orchymyn i'r troseddwr dalu iawndal i'r dioddefwr, ble bo'n briodol; a

[19] Pan fydd y diffynnydd yn gwrthod cyfaddef mewn llys i drosedd yr oedd wedi'i nodi ynghynt y byddai'n gofyn i'r llys ei hystyried - bydd erlynyddion yn ystyried a ddylai gael ei gyhuddo o hon gan egluro i eiriolwr y diffynnydd efallai y dylid adolygu'r drosedd ymhellach.

[20] Ni ellir rhoi rhybudd syml i droseddwyr ifanc. Fodd bynnag, gellir rhoi Cerydd neu Rybudd Terfynol iddynt. Er hwylustod, defnyddiwn y gair rhybudd yn y Safonau hyn i gyfeirio at y cosbau hyn hefyd. Gellir rhoi rhybudd amodol i droseddwyr ifanc.

c) darparu tystiolaeth o effaith y troseddu ar gymuned, ble bo'n briodol.

9.5 Mae'r eiriolwr yn sicrhau fod y llys yn ystyried yr amrediad llawn o opsiynau dedfrydu sydd ar gael iddo trwy:

a) ofyn i'r llys ystyried gorchmynion atodol y gellir eu gwneud yn erbyn y troseddwr i leihau'r siawns o droseddu yn y dyfodol neu i amddiffyn dioddefwr rhag troseddu yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Gorchmynion Ataliol, gwaharddiadau gyrru a Gorchmynion Atal Troseddau Rhywiol;

b) herio unrhyw liniaru amddiffyniad amhriodol sy'n sarhaus i gymeriad dioddefwr, yn ffals neu'n amherthnasol i ystyriaethau dedfrydu cywir;

c) ofyn i'r llys ystyried gorchymyn dinistrio unrhyw eitemau fel cyffuriau neu arfau sydd wedi bod dan reolaeth y troseddwr neu a ddefnyddiwyd yn y drosedd;

d) gynorthwyo'r llys yn gyffredinol gyda'r broses ddedfrydu, gan dynnu sylw'r llys at unrhyw ddarpariaethau cyfreithiol perthnasol, canllawiau dedfrydu ac achosion canllawiau, gan gynnwys dangos yr amgylchiadau, fel pan fo'r drosedd yn Drosedd Casineb, ble bo'r gyfraith yn mynnu bod y llys yn cyhoeddi unrhyw gynnydd mewn dedfryd mae wedi'i osod o ganlyniad; a

e) gall yr eiriolwr hefyd helpu'r llys trwy amlinellu, yng ngoleuni'r ffactorau y sonnir amdanynt ym mharagraffau 9.3 a 9.5, yr amrediad dedfrydu mae'r drosedd bresennol yn dod oddi mewn iddo.

9.6 Yn ychwanegol mae'r eiriolwr yn gofyn i'r llys orchymyn i'r troseddwr dalu'r holl gostau neu ran o'r costau o ddod â'r achos i'r llys, oni bai bod rheswm da dros beidio gwneud hynny.

9.7 Nid oes gan yr erlyniad bŵer i apelio yn erbyn dedfrydau. Ond mewn ystod gyfyngedig o achosion Llys y Goron, gall y Twrnai Cyffredinol gyfeirio'r ddedfryd i'r Llys Apêl fel un ormodol drugarog - hynny yw, bod y ddedfryd tu allan i'r amrediad y gallai barnwr ei ystyried yn rhesymol sy'n briodol. Cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl y ddedfryd, byddwn yn penderfynu p'un a ddylid gofyn i'r Twrnai Cyffredinol wneud hynny. Gall y Twrnai Cyffredinol hefyd ystyried cyfeiriad yn ôl ei ddoethineb ef neu hi ei hun neu ar gais y dioddefwr neu aelod o'r cyhoedd. Pan fo'r Twrnai Cyffredinol yn penderfynu cyfeirio dedfryd, rhaid iddo ef neu iddi hi wneud hynny o fewn 28 diwrnod i'r ddedfryd.

9.8 Mae Swyddog Gofal Tystion yn hysbysu unrhyw ddioddefwr a thystion lleyg o'r ddedfryd a roddwyd gan y llys o fewn cyfnod byr, gan gynnwys eglurhad mewn iaith syml o ystyr y ddedfryd.

Atafaelu elw trosedd

9.9 Pan fo person a ddrwgdybir neu ddiffynnydd mewn rhai achosion yn ymddangos fel ei fod wedi elwa o'i drosedd ef neu ei throsedd hi, a bod perygl y bydd ef neu hi'n defnyddio neu'n cael gwared ag asedau, byddwn yn gofyn i farnwr osod Gorchymyn Ataliol o fewn cyfnod byr i gais gan yr heddlu neu ymchwilwyr eraill, er mwyn atal y diffynnydd rhag eu defnyddio neu eu gwaredu. Byddwn hefyd yn cynghori'r heddlu neu ymchwilwyr eraill pan fyddwn yn ystyried y gallai Gorchymyn Ataliol fod yn briodol. Cyn gynted â phosib ar ôl rhoi'r Gorchymyn, byddwn yn anfon copi ohono at sefydliadau perthnasol fel banciau a chymdeithasau adeiladu, sydd mewn sefyllfa i atal y person a ddrwgdybir neu'r diffynnydd rhag defnyddio ei asedau. Weithiau byddwn yn gofyn i'r heddlu neu ymchwilwyr eraill wneud hyn i ni.

9.10 Rydym yn ystyried p'un a allai achosion eraill a dderbyniwyd oddi wrth yr heddlu neu ymchwilwyr eraill fod yn addas ar gyfer atafaelu elw trosedd y diffynnydd. Os bydd achos yn ymddangos

yn addas, byddwn yn gofyn i'r heddlu neu ymchwilydd arall ar unwaith ddarganfod p'un a oes ganddo ef neu ganddi hi ddigon o asedau i gyfiawnhau gofyn i'r llys eu hatafaelu.

9.11 Pan fo diffynnydd yn derbyn euogfarn, a'i bod yn ymddangos yn briodol i ofyn am atafaelu elw ei drosedd ef neu ei throsedd hi, gofynnwn i'r llys osod amserlen ar gyfer yr achos atafaelu, oni bai bod yr achos yn un syml ac y gellir atafaelu ar yr un pryd ag y mae'r troseddwr yn cael ei ddedfrydu.

9.12 Cyn gynted â phosib ar ôl gosod amserlen, gofynnwn i'r heddlu neu ymchwilydd arall derfynu eu hymholiadau i sefyllfa ariannol ac eiddo'r troseddwr.

9.13 Cyn y gwrandawiad atafaelu, byddwn yn anfon rhestr o'r asedau a ddarganfuwyd at y llys ac at y troseddwr er mwyn i'r llys allu penderfynu ynglŷn ag unrhyw ddadleuon am eu perchnogaeth neu eu gwerth. Gofynnwn i'r llys benderfynu faint ddylai'r troseddwr ei dalu.

9.14 Er bod staff y llys yn gyfrifol am gasglu'r swm a atafaelwyd mewn rhai achosion, byddwn yn gwneud y gwaith hwn mewn achosion anos; er enghraifft, lle mae'n rhaid gwerthu eiddo i godi arian. Gall hyn olygu penodi Derbynnydd.

9.15 Rydym yn defnyddio ein pwerau i fynd ag achosion yn ôl i'r llys pan fydd y troseddwr yn ceisio oedi neu osgoi talu.

Safon 10

Byddwn yn ystyried p'un a ddylem weithredu ein hawliau apêl pan fyddwn yn credu bod y llys wedi gwneud y penderfyniad cyfreithiol anghywir

10.1 Mae gan yr erlyniad hawliau apêl cyfyngedig. Rydym yn penderfynu p'un a ddylid apelio yn erbyn penderfyniadau'r llys o dan yr amgylchiadau canlynol:

a) ar unwaith, mewn achosion difrifol ble bo ynadon yn caniatáu mechnïaeth a'n bod ni'n ystyried y dylid cadw'r diffynnydd yn y ddalfa i ddisgwyl ail ystyried mechnïaeth gan farnwr Llys y Goron;

b) o fewn 24 awr, gyda chymeradwyaeth Prif Erlynydd y Goron neu Bennaeth Adran berthnasol y Pencadlys, pan fo barnwr yn atal achos cyn i'r rheithgor gael cyfle i ystyried y dystiolaeth, fel bod yr achos yn gallu cael ei ail ystyried gan Lys Apêl gynted ag sy'n bosibl; ac

c) o fewn cyfnod caeth o amser ar ôl dedfrydu yn yr amrediad cyfyngedig o achosion ble gallwn ofyn i'r Twrnai Cyffredinol gyfeirio dedfryd at y Llys Apêl fel un a allai fod yn rhy drugarog. Byddwn hefyd yn cyfeirio'r achos at y Twrnai Cyffredinol pan fo rhywun â diddordeb mewn achos yn cysylltu â ni i ddweud eu bod yn credu bod y ddedfryd yn rhy drugarog, oni bai ein bod yn ystyried nad yw'n rhy drugarog, pan fyddwn yn hysbysu'r person a gysylltodd â ni ynglŷn â'u hawl i gwyno'n uniongyrchol i'r Twrnai Cyffredinol. Rydym hefyd yn hysbysu'r dioddefwr neu ei deulu am ei hawl ef neu hi i ofyn i'r Twrnai Cyffredinol gyfeirio'r ddedfryd i'r Llys Apêl.

10.2 Rydym hefyd yn ystyried p'un a ddylid defnyddio apeliadau penodol eraill pan rydym yn credu nad yw'r llys wedi dilyn y weithdrefn gywir, wedi gwneud penderfyniad sy'n dra difrifol o anghywir, neu fod angen i'r gyfraith gael ei gwneud yn fwy eglur gan lys uwch.

10.3 Pan fo diffynnydd yn apelio yn erbyn penderfyniad llys, rydym yn dynodi eiriolwr i'n cynrychioli neu gynorthwyo'r llys, heblaw mewn apeliadau yn erbyn dedfrydau yn y Llys Apêl, ble byddem yn ymddangos os oes rheswm da dros i ni wneud hynny.

10.4 Pan fo'r Llys Apêl wedi gwneud penderfyniad, a'n bod yn dymuno apelio ymhellach ynglŷn â'r penderfyniad, rydym yn penderfynu p'un a ddylid gofyn i'r Llys Apêl dystio fod pwynt cyfreithiol o bwysigrwydd cyhoeddus cyffredinol yn yr achos y dylid ei benderfynu gan y Llys Goruchaf. Rydym hefyd yn ymddangos yn y Llys Goruchaf i'w gynorthwyo mewn penderfynu ar achosion a ddygir ger ei fron gan ddiffynnydd.

10.5 Byddwn yn hysbysu'r dioddefwyr yn gyson am gynnydd unrhyw apêl ac yn egluro effaith penderfyniad y llys iddynt.

Safon 11

Byddwn yn delio'n brydlon ac yn agored gyda chwynion am ein penderfyniadau a'r gwasanaeth a ddarperir gennym

11.1 Amcanwn at ddelio â chwynion am safon y gwasanaeth a ddarperirgennym cyn gynted ag sy'n bosibl.

11.2 Os gallwn ddatrys y gŵyn yn syth byddwn yn gwneud hynny; os na allwn, bydd y gŵyn yn cael ei chofnodi'n ffurfiol a delir â hi yn ôl dull fesul cam, ar y lefel leol i gychwyn.

11.3 Byddwn yn cofnodi ac yn cydnabod cwynion ar bob cam cyn gynted ag sy'n bosibl, ac yn darparu ymateb llawn cyn gynted ag sy'n bosibl, o fewn terfyn amser caeth cyffredinol.

11.4 Gwrthodwn ddelio â chwynion a wneir mwy na 6 mis ar ôl y digwyddiadau perthnasol oni bai bod rheswm da dros yr oedi.

11.5 Rydym yn ateb cwynion yn agored ac yn ddidwyll, gan osgoi jargon neu iaith dechnegol, yn darparu ymateb cynhwysfawr sy'n delio â'r holl broblemau perthnasol. Ble bo'n briodol, cydnabyddwn fai a byddwn yn ymddiheuro. Hefyd, byddwn yn amlinellu unrhyw wersi a ddysgwyd ac unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd i atal iddo ddigwydd eto.

11.6 Pan fydd y gŵyn yn codi materion sy'n ymwneud ag asiantaeth arall, fel yr heddlu neu'r llysoedd, ceisiwn gytuno ar ein hymateb gyda'r asiantaeth dan sylw, neu gytuno gyda nhw y byddant yn ymateb yn uniongyrchol i'r pwyntiau perthnasol a dweud wrth yr achwynwr pwy fydd yn ymateb.

Safon 12

Byddwn yn ymgysylltu â chymunedau fel ein bod yn ymwybodol o'u pryderon pan yr ydym yn gwneud penderfyniadau

12.1 Rydym yn egluro ein rôl i gymunedau lleol ac ymgynghori â nhw ynglŷn â'r hyn ddylai ein blaenoriaethau fod drwy grwpiau a phaneli cymunedol.

12.2 Bydd y grwpiau a phaneli craffu[21] yn rhoi adborth ar y ffordd mae'r cymunedau'n debygol o edrych ar ein modd o wneud penderfyniadau a'n gweithdrefnau trin achosion.

12.3 Defnyddiwn adborth i adolygu'r modd rydym yn cynnal ein hachosion.

12.4 Rydym yn gweithio gyda'r heddlu ac awdurdodau lleol i ymateb i'r blaenoriaethau sy'n ymddangos mewn cymdogaethau a chymunedau, fel ymddygiad gwrthgymdeithasol.

[21] Cewch ganfod rhagor am y grwpiau a'r paneli hyn ar ein gwefan (www.cps.gov.uk) neu ar gais (gweler cefn y llyfryn am fanylion).

Mae hon yn ddogfen gyhoeddus.

Ceir copïau pellach o'r ddogfen hon a gwybodaeth am ieithoedd a fformatau amgen o:

CPS Communication Division
Rose Court
2 Southwark Bridge
London SE1 9HS

E-bost: publicity.branch@cps.gsi.gov.uk

Am wybodaeth ynglŷn â Gwasanaeth Erlyn y Goron, ac i weld neu lawrlwytho copi electroneg o'r ddogfen hon, os gwelwch yn dda ymwelwch â'n gwefan:

www.cps.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2010
Argraffwyd gan Blackburns of Bolton